CWESTIYNAU CYSON

Pwy yw Menter Môn a beth yw Morlais?

Wedi'i sefydlu ym 1996, mae Menter Môn yn fenter cymdeithasol nid er elw sy'n rheoli prosiectau ar draws y gogledd-orllewin gyda'r nod o ychwanegu gwerth i adnoddau lleol er budd y gymuned. Dros y 24 mlynedd diwethaf, mae Menter Môn wedi datblygu cyswllt gyda chymunedau, arianwyr a phartneriaid sydd wedi arwain at gyflawni prosiectau ar draws ystod o sectorau gyda chyfanswm gwerth o £70 miliwn o ffynonellau yn cynnwys arian Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am Menter Môn ar gael yma.

Morlais yw prosiect ynni llif llanw Menter Môn. Y nod yw datblygu 'Parth Arddangos Gorllewin Môn' sydd wedi ei ddynodi gan Stâd y Goron, ac wedi'i leoli oddi ar arfordir gorllewinol Ynys Cybi.

Mae gan Morlais y potensial i sicrhau bod Ynys Môn yn flaenllaw yn nhermau cynhyrchu trydan glân o ynni adnewyddadwy, ac mae'n gyfle hefyd i sicrhau y gall Ynys Môn chwarae rhan wrth fodloni anghenion ynni'r dyfodol yn ogystal â newid hinsawdd.

Beth yw Parth Arddangos Gorllewin Môn?

Sicrhaodd Menter Môn brydles 45 mlynedd gan Stâd y Goron ar gyfer "Parth Arddangos Gorllewin Môn" yn 2014. Sefydlwyd Morlais gan Menter Môn i reoli'r brydles hon a sicrhau'r budd lleol mwyaf posib i Fôn.

Mae'r Parth yn un o nifer ledled y Deyrnas Unedig sydd wedi'u dynodi gan Stâd y Goron mewn er mwyn annog a chyflymu datblygiadau technolegol yn y sector hwn. Mae pob un o'r parthau wedi eu hadnabod oherwydd eu potensial o ran ynni tonau a llanw yn ogystal â mynediad at yr isadeiledd angenrheidiol. Dewiswyd Parth Môn oherwydd ei lanw cryf. Bydd Menter Môn yn rheoli ac yn is-osod ardaloedd o fewn y Parth i ddatblygwyr technoleg llif llanw.

Beth yw'r cynnig?

Y cynnig yw datblygu'r isadeiledd angenrheidiol er mwyn defnyddio technoleg llif llanw i gynhyrchu trydan. Bydd y cynllun yn caniatáu i ddatblygwyr tyrbinau ynni llanw brofi eu dyfeisiadau ar raddfa fasnachol gyda llwybr i'r rhwydwaith dosbarthu'r grid cenedlaethol. Mae gan Morlais y potensial i ehangu dros amser i gapasiti cynhyrchu o 240MW o drydan – yr amcangyfrif yw bod hyn yn ddigon ar gyfer tua 180,000 o aelwydydd arferol Cymreig. Fesul cam fydd y cynllun yn cael ei weithredu a bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i gyrraedd y capasiti llawn yma.

Byddai Morlais yn berchen ac yn rheoli'r isadeiledd, ac mae hyn yn cynnwys y ceblau, y cysylltiad grid a'r is-orsaf ar y tir, tra byddai'r datblygwyr yn denantiaid i Morlais, ac yn talu am yr hawl i ddefnyddio'r safle a'r offer.

Sut caiff unrhyw risgiau amgylcheddol posib eu monitro?

Bydd Morlais yn gosod dyfeisiadau yn y môr yn raddol ac fesul cam er mwyn caniatáu monitro a rheoli risgiau amgylcheddol posib. Bydd hyn yn golygu mai nifer fechan o dyrbinau fydd yn cael eu gosod i ddechrau – er mwyn monitro'n agos am unrhyw effeithiau ar fywyd gwyllt yr ardal. Os yw'r gwaith monitro yn cadarnhau, fel y mae ein hasesiadau wedi dangos, bod yr effaith yn finimol, dim ond wedi hynny y caiff tyrbinau pellach eu gosod. Fodd bynnag, os yw'r gwaith monitro yn dangos nad dyma'r achos a bod y tyrbinau'n cael effaith negyddol, yna ni fydd dyfeisiau pellach yn cael eu gosod hyd nes nad dyma'r sefyllfa mwyach.

Drwy ddatblygu yn y ffordd yma gall Morlais fonitro'r effeithiau mewn amgylchiadau byw a rheoli'r prosiect yn unol â hynny, gan ddarparu mesurau lliniaru effeithiol.

Yn ogystal, mae Cynllun Monitro a Lliniaru Amgylcheddol wedi'i gyflwyno gyda'n cais, sy'n amlinellu'r prosesau a'r rhagofalon a gaiff eu rhoi yn eu lle i sicrhau y gellir rheoli'r broses raddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ein hasesiadau, rydym wedi defnyddio dulliau asesu gofalus yn unol â chanllawiau SNH (2016).

Pa fath o ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio fel rhan o Morlais?

Pwrpas y prosiect yw defnyddio gwahanol ddyfeisiau o fewn y parth. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau sydd wedi'u hangori i wely'r môr, rhai yng nghanol y dŵr, a rhai sy'n arnofio ar y wyneb. Wrth i dechnoleg ynni morol ddatblygu, felly hefyd y gwnaiff y math o ddyfais ynni llif llanw fydd yn cael eu defnyddio fel rhan o Morlais.

Rydym yn gweithio gyda datblygwyr gwahanol fathau o dechnolegau a thyrbinau. Am restr llawn o'r partneriaid rydym yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd, ewch i'n gwefan www.morlaisenergy.com.

Beth yw'r buddion cymunedol tebygol?

Mae Menter Môn wedi'i ymrwymo i sicrhau y bydd y gymuned leol yn elwa o brosiect Morlais gan greu ffynhonnell gynaliadwy o refeniw i ail-fuddsoddi mewn mentrau lleol. Mae'r buddion cymunedol eraill yn cynnwys:

- Creu 100 o swyddi da ar Ynys Môn yn y 10 mlynedd gyntaf
- Taclo newid hinsawdd trwy gynhyrchu trydan glân o ynni adnewyddadwy
- Gwella sgiliau lleol gyda phrentisiaethau a hyfforddiant
- Cydweithio gyda datblygwyr i sicrhau gwariant mwyaf posib yn lleol

- Cyfleoedd cadwyn cyflenwi i fusnesau lleol yn y cyfnod adeiladu ac i'r dyfodol

Beth fydd yr effaith weledol?

Mae Menter Môn yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd tirlun a morlun Ynys Cybi ac Ynys Môn i gymunedau lleol ac i ymwelwyr. Rydym wedi cydnabod yn llwyr o'r dechrau bod y morlun a'r tirlun lleol yn sensitif ac yn werthfawr iawn.

Mae cynigion ar gyfer Morlais wedi esblygu o ganlyniad i ymgynghori gydag cyrff statudol megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae ein Hasesiad Effaith Morlun, Tirlun a Gweledol (SLVIA) yn adnabod rhai effeithiau posib ar draws rhannau penodol o'r datblygiad. Fodd bynnag, ni chredwn y bydd y dyfeisiau ynni llanw yn nodwedd ddiffiniol o'r morlun na'r tirlun a dim ond elfen fach o'r golygfeydd agored o Fôr Iwerddon fydd yn cael eu heffeithio.

Rydym yn cydnabod bod effaith weledol y prosiect yn debygol o fod yn ganolbwynt ar gyfer trafodaeth wrth symud ymlaen, yn cynnwys y penderfyniad i gyfyngu rhan fwyaf o rannau gweledol posib o ran ddeheuol Parth Arddangos Morlais.

Pa ganiatâd sydd ei angen i ddatblygu'r prosiect?

Er mwyn cael caniatâd i ddatblygu a gweithredu parth arddangos Morlais, mae Menter Môn wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith. Hefyd, mae cais wedi'i wneud i Dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded morol dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Cyflwynwyd y cais am ganiatâd ym mis Medi 2019. Bydd y ddwy broses yn cyd-redeg â'i gilydd. Mae disgwyl penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun yn ail hanner 2021. Nid oes amserlen wedi ei nodi ar gyfer y broses trwydded morol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Beth yw amserlen y prosiect?

Wedi cyflwyno'r cais am ganiatâd yn yr hydref 2019, cynhaliwyd cyfarfod cyd-ymchwiliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar 22 Tachwedd ym Mae Trearddur. Diben y digwyddiad oedd eu helpu i baratoi ar gyfer ymchwiliad drwy drafod trefniadau gweithdrefnol ac eraill.

Mae ymchwiliad cyhoeddus bellach wedi cael ei gynnal ac oherwydd cyfyngiadau pandemig roedd y broses yn gyfan gwbl ar lein. Daeth yr ymchwiliad sy'n rhan o'r broses cynllunio i ben ganol fis Mawrth 2021.

I ddysgu mwy am yr amserlen cliciwch ar y linc yma

A oes Asesiad Effaith Amgylcheddol wedi'i baratoi?

Ers sicrhau prydles Stâd y Goron, mae'r tîm wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr ac mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru, y gymuned a grwpiau eraill sydd â diddordeb er mwyn taro cydbwysedd rhwng gwireddu'r safle fel parth ynni morol a rhoi sylw buan i unrhyw bryderon.

Fel rhan o'r broses, mae Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) wedi'i baratoi, yn seiliedig ar ystod o waith y cytunwyd arno gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ac sydd gyda mewnbwn sefydliadau statudol. Yn ogystal, mae arbenigwyr annibynnol wedi'u comisiynu i gynnal astudiaethau manwl i ddeall effeithiau posib y prosiect ym mhob cam.

- Gwaddod o'r môr ac ansawdd y dŵr
- Treftadaeth naturiol, ecoleg dyfnforol, mamaliaid y môr, pysgod a chregynbysgod, adaryddiaeth, ecoleg daearol ac arfordirol
- Morlun a thirlun
- Llongau a mordwyo
- Archaeoleg a threftadaeth diwylliannol
- Twristiaeth a hamdden

Yn amodol ar dderbyn caniatâd, bydd y ffocws yn symud i'r hyn sydd ei angen i weithredu'r datblygiad. Mae hyn yn cynnwys edrych ar beth sydd ei angen i wneud cyn i'r gwaith ddechrau, er enghraifft, cael caniatâd ar gyfer dulliau adeiladu a rheolaeth a monitro amgylcheddol.

Beth yw ynni llif llanw?

Mae llif llanw yn cael ei greu gan dynfa disgyrchedd y lleuad a'r haul ar foroedd y byd, sy'n newid yn barhaus. Drwy osod dyfeisiau ynni llanw yn y môr, mae hi'n bosib defnyddio ynni'r cerrynt i gynhyrchu trydan.

Gan fod y llanw'n rhagweladwy, mae cynhyrchu ynni yn y ffordd hon yn darparu ffynhonnell ynni adnewyddadwy, carbon isel dibynadwy a chadarn.

Mae gan Gymru, ac Ynys Môn yn benodol, rai o'r adnoddau cerrynt llanw gorau yn Ewrop.

Mae ynni llif llanw yn sector sy'n esblygu ac nid yw wedi cyrraedd aeddfedrwydd y sector ynni gwynt eto. Mae datblygwyr yn awyddus i allu defnyddio'r dyfeisiau ar raddfa fasnachol mewn parthau fel Morlais.

Mewn mannau eraill, mae dyfeisiau llif llanw yn cael eu profi a'u harddangos yn unigol e.e. yn Orkney yn y Ganolfan Ynni Morol Ewropeaidd (EMEC). Mae safleoedd eraill yng Nghymru hefyd lle mae ynni llif llanw yn cael ei ddatblygu e.e. Sir Benfro ac oddi ar arfordir Penrhyn Llŷn. Yr hyn sy'n gwneud Morlais yn unigryw yw ei fod yn cael ei redeg gan fenter gymdeithasol trydydd sector er budd lleol.

Sut alla i fod yn rhan o hyn?

Mae ymgysylltu gyda'r gymuned a rhanddeiliaid yn ganolog i'r ffordd y mae Menter Môn yn mynd i'r afael â'i holl brosiectau. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig gyda phrosiect Morlais. Gweithredwyd rhaglen helaeth o ymgynghori gyda'r gymuned, a cafodd manylion yr ymgynghori eu cynnwys fel rhan o'r cais am ganiatâd. Drwy godi ymwybyddiaeth, ymgysylltu mewn deialog a rhannu gwybodaeth am y prosiect, roedd cyfleoedd i'r cyhoedd, rhanddeiliaid a grwpiau diddordeb roi sylwadau ar gynigion a chymryd rhan.

Ar hyn o bryd, gan fod y broses o geisio caniatâd ar waith, mae'r cyfleoedd i roi sylwadau yn ffurfiol yn gyfyngedig. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau, bydd tîm Morlais yn fwy na hapus i ymateb.

Efallai bod gennych ddiddordeb mewn darllen ein dogfen 'herio'r myth' hefyd – ar gael ar ein gwefan neu drwy glicio yma.